Cymryd rhan - gwneud Cymru'n genedl fwy cynaliadwy

Er mwyn helpu i wneud Cymru'n fwy cynaliadwy, byddwn yn bwrw ymlaen â thri chynllun datblygu cynaliadwy allweddol y gallwch chi gyfrannu atynt:

1. **Wythnos Cynaliadwyedd Cymru**
2. **Cronfa Her Datblygu Cynaliadwy Cymru**
3. **Y Siarter Datblygu Cynaliadwy**

Cyflwyniad

Mae dyletswydd gyfreithiol ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i hybu datblygu cynaliadwy yn ei holl waith. Cyhoeddwyd ein Cynllun newydd ar gyfer Datblygu Cynaliadwy, sef *Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned* ym mis Mai 2009 ac mae'n nodi gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad o Gymru gynaliadwy.

Mae hyn yn pwysleisio diben Datblygu Cynaliadwy sef gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol hirdymor pobl a chymunedau yng Nghymru. I fod yn hollol gynaliadwy, mae angen gwneud hyn mewn ffyrdd sy'n hybu cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal, ac sy'n gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol ac yn parchu ei derfyniadau.

Gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cymru gynaliadwy

Mae gwella lles hirdymor pobl a chymunedau wrth graidd ein hagwedd at ddatblygu cynaliadwy. I hybu hyn, rydym yn ymrwymedig i ddyfodol cynaliadwy i Gymru lle'r ydym yn:

- **yn byw o fewn ein cyfyngiadau amgylcheddol**, gan ddefnyddio ein cyfran deg yn unig o adnoddau'r ddaear, er enghraifft drwy leihau'n sylweddol ein defnydd o ynni sy'n seiliedig ar garbon ac allyriadau nwyon tŷ gwydr, a symud tuag at fod yn genedl dim gwastraff;
- **yn cefnogi ecosystemau iach, cynhyrchiol a biolegol amrywiol**, drwy gydnabod a chefnogi'n frwd ein hasedau amgylcheddol yn cynnwys tir, dŵr a bioamrywiaeth;
- **yn adeiladu economi gynaliadwy a chref**, yn cynnwys meithrin cyflenwyr ac economïau lleol, cefnogi arloesedd, llwyddo i symud tuag at economi carbon isel a gwastraff isel, a sicrhau mai Cymru yw'r lleoliad gorau i leoli, dechrau, tyfu a ffynnu;
- **yn mwynhau cymunedau sy'n ddiogel, yn gynaliadwy ac yn ddeniadol**, lle mae pobl yn mwynhau iechyd da drwy gael cysylltiad llawer cryfach â'n cymunedau a'n heconomïau lleol;
- **yn wlad deg, gyfiawn a dwyieithog** lle mae dinasyddion yn gallu penderfynu ar eu llwybr bywyd eu hunain, llywio'u cymunedau a chyflawni eu potensial yn llawn, gan sicrhau bod cyfartaledd i bawb yn werth craidd i'n holl waith.

1. Wythnos Cynaliadwyedd Cymru

Mae llawer o bobl, sefydliadau a chymunedau eisoes yn gweithio i wella safon byw pobl a chymunedau yng Nghymru ac yn hybu datblygu cynaliadwy. Ein dymuniad yw

- cydnabod a dathlu'r gwaith hwn;
- annog ac ysgogi sefydliadau eraill i gymryd rhan mewn hybu datblygu cynaliadwy yng Nghymru;
- dysgu o brofiadau ac esiamplau pobl eraill;
- gweld rhwydweithiau gweithredol o sefydliadau ledled Cymru'n gweithio gyda'i gilydd i greu Cymru fwy cynaliadwy.

Rydym am sicrhau bod sefydliadau'n ymwybodol o'r darlun ehangach y maent yn cyfrannu ato. Rydym am iddynt ddefnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu ymdeimlad cryfach o fomentwm ac ymrwymiad i weithio tuag at ddatblygu cynaliadwy.

Wythnos Cynaliadwyedd Cymru: 17eg – 23ain Mai 2010

Rydym wrthi'n trefnu'r Wythnos Cynaliadwyedd gyntaf yng Nghymru a gaiff ei chynnal rhwng yr 17eg a'r 23ain Mai 2010; yr wythnos cyn Gŵyl y Gelli.

Estynnwn wahoddiad i unigolion, sefydliadau (o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector) a chymunedau i:

- gymryd camau penodol i wneud Cymru'n fwy cynaliadwy;
- dathlu a hyrwyddo'r hyn a wneir ganddynt eisoes;
- ymuno â rhwydwaith o unigolion, sefydliadau a chymunedau sy'n gweithio gyda'i gilydd i wneud Cymru'n fwy cynaliadwy.

Ymunwch â ni i ddangos eich brwdfrydedd a'ch ymrwymiad i hybu datblygu cynaliadwy yn lleol.

Beth allwch chi ei wneud yn ystod yr Wythnos

Cymryd rhan yn Wythnos Cynaliadwyedd Cymru a rhoi gwybod i ni pa weithgaredd rydych yn bwriadu ei gynnal. Er enghraifft:

- Dangos sut rydych chi'n lleihau ôl-troed carbon ac ecolegol Cymru;
- Dangos sut rydych chi'n lleihau, yn ailddefnyddio ac yn ailgylchu;
- Hybu arbed ynni neu ynni adnewyddadwy;
- Hybu defnyddio bwydydd a diodydd a dyfwyd yn lleol, yn ogystal â bwyd a diod organig neu Fasnach Deg;
- Cysylltu â sefydliadau newydd neu gymunedau newydd i hybu byw'n gynaliadwy;
- Lleihau faint mae pobl yn ei deithio;
- Hybu dulliau cynaliadwy o deithio a ffyrdd iachach o fyw;
- Gweithio gyda phobl ifanc ar ddatblygu cynaliadwy;
- Gweithio gyda chymunedau difreintiedig ar ddatblygu cynaliadwy;

- Gwella ansawdd yr amgylchedd lleol a mannau gwyrdd, a'i gwneud yn haws i bobl eu mwynhau;
- Hybu dealltwriaeth, ymrwymiad a newid mewn ymddygiad er mwyn byw'n gynaliadwy.

Wrth gwrs, ceir llawer o ddulliau arloesol eraill o hybu datblygu cynaliadwy yn lleol. Mae'r dolenni wrth gwt y daflen hon yn cynnwys llawer o enghreifftiau o arfer da a syniadau arloesol.

Yr hyn a wnawn

Byddwn yn casglu'r enghreifftiau gwahanol o weithgarwch datblygu cynaliadwy a wneir gan gymunedau a sefydliadau gwahanol fel rhan o Wythnos Cynaliadwyedd Cymru. Byddwn yn:

- darparu deunyddiau "Wythnos Cynaliadwyedd Cymru" i chi eu defnyddio i hyrwyddo eich gwaith;
- eich rhoi mewn cysylltiad â sefydliadau a chymunedau gwahanol sy'n gwneud gweithgareddau tebyg i chi;
- eich rhoi mewn cysylltiad â sefydliadau a chymunedau gwahanol yn yr un ardal â chi;
- tynnu sylw at ddulliau arloesol newydd a'r rhai gorau yn 'Hay on Earth', ar wefan Cynnal Cymru ac yn ei gylchlythyr;
- cynnig cyngor ac arweiniad lle bo angen er mwyn eich helpu i fanteisio i'r eithaf ar eich gwaith.

Cynnal Cymru (Sustain Wales)

Rydym yn cefnogi Cynnal Cymru fel y gallant:

- hwyluso gweithredu ar ddatblygu cynaliadwy drwy gydol y flwyddyn; yn ogystal â
- chefnogi rhwydwaith weithredol o sefydliadau ac unigolion sy'n gallu rhannu profiadau a gweithio gyda'i gilydd i greu Cymru fwy cynaliadwy.

Mae croeso i chi gysylltu â Cynnal Cymru i gael gwybodaeth am sut y gallech ymuno â'i rwydwaith drwy ddod yn Aelod, neu'n Bartner Rhwydwaith os ydych yn sefydliad.

www.sustainwales.com / www.cynnalcymru.com

E-bost: enquiries@sustainwales.com neu ffôn 02920 19 20 21

2. Cronfa Her Datblygu Cynaliadwy

Mae llawer o sefydliadau, cymunedau ac unigolion yn aml yn ymwybodol o ddulliau arloesol a chreadigol a allai helpu hybu datblygu cynaliadwy. Diben y Gronfa Her Datblygu Cynaliadwy yw cefnogi sefydliadau, cymunedau a

busnesau i ddatblygu dulliau arloesol newydd o ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru.

Bydd angen i brosiectau a fydd yn gymwys ar gyfer cyllid:

- Hybu datblygu cynaliadwy yng Nghymru, yn ogystal â helpu i gyflawni gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Cymru gynaliadwy (fel y nodir yn Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned)
- Bod yn arloesol ac yn newydd, gan ddangos ffyrdd o feddwl sydd ar flaen y gad;
- Dangos sut y byddent yn integreiddio materion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol a hybu atebion cynaliadwy hirdymor;
- Bod yn glir o ran sut y byddent yn cefnogi lles hirdymor pobl a chymunedau yng Nghymru.

Sut y bydd hyn yn gweithio?

Caiff cyfres o weithdai '*Hay on Earth*' eu cynnal fel rhan o Ŵyl y Gelli.

Bydd pob gweithdy yn rhoi cyfle i sefydliadau ddatblygu eu syniadau am brosiectau datblygu cynaliadwy, drwy:

- Weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i ddatblygu eu prosiect;
- Manteisio ar gyngor a chymorth arbenigol;
- Dysgu o'r hyn sy'n digwydd mewn lleoedd eraill (megis gweithgarwch sy'n cael ei gynnal yn rhan o Wythnos Cynaliadwyedd Cymru);
- Rhwydweithio â rhanddeiliaid eraill; a
- Thrafod syniadau am brosiectau gydag aelodau o'r cyhoedd ac eraill.

Dyma fydd themâu pob gweithdy 'Hay on Earth':

- **Dydd Mawrth 1 Mehefin** – trafnidiaeth a mynediad
- **Dydd Mercher 2 Mehefin** – amaethyddiaeth a bwyd
- **Dydd Iau 3 Mehefin** – busnes, gwasanaethau a nwyddau newydd
- **Dydd Sadwrn 4 Mehefin** – y gymuned a chartrefi. Hefyd dyfernir gwobrau'r Gronfa Her Datblygu Cynaliadwy i'r prosiectau gorau a ddatblygwyd - 1 o bob un o'r gweithdai uchod.

Dylid cyflwyno'r prosiectau i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ddiwedd pob gweithdy '*Hay on Earth*'. Yna, bydd panel yn asesu'r holl brosiectau ac yn dewis y prosiect gorau yn y gweithdy y diwrnod hwnnw. Wedyn, byddwn yn cynnal sesiwn grynhoi a chaiff yr enillwyr eu cyhoeddi ddydd Gwener 4ydd Mehefin.

Pwy sy'n gymwys?

Bydd sefydliadau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn gymwys i gymryd rhan. Rhaid i bob prosiect ganolbwyntio ar ddulliau newydd ac arloesol o ddatblygu cynaliadwy

a fydd yn helpu i gyflawni gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Cymru gynaliadwy, fel y nodwyd yn ei Chynllun Datblygu Cynaliadwy Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned.

Y camau nesaf

Os bydd eich prosiect yn llwyddiannus, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnig grant i chi gwerth hyd at £10,000 yn 2010-11 i'ch cynorthwyo i ddatblygu eich prosiect. Gofynnir i chi ddychwelyd i Ŵyl y Gelli y flwyddyn ganlynol i sôn am ddatblygiad eich prosiect er mwyn galluogi eraill i ddysgu o'ch profiad.

3. Y Siarter Datblygu Cynaliadwy

Yng Ngŵyl y Gelli, byddwn yn lansio Siarter Datblygu Cynaliadwy i annog sefydliadau yng Nghymru i wneud datblygu cynaliadwy yn egwyddor drefnu ganolog. Byddwn yn cyfrannu at lunio'r Siarter hwn ac yn darparu modiwlau cymorth a chyngor arall i sefydliadau. Byddwn yn gwahodd aelodau o'r Siarter i ddigwyddiad blynyddol i rannu profiadau a'r gwersi a ddysgwyd ag eraill, ac er mwyn tynnu sylw at enghreifftiau o arfer gorau yn eu gwaith.

Cysylltu â ni

Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan yn Wythnos Cynaliadwyedd Cymru, y gyfres o weithdai Hay on Earth, y Gronfa Her Datblygu Cynaliadwy neu'r Siarter Datblygu Cynaliadwy, yna cysylltwch â ni ar bob cyfri:

Y Gangen Datblygu Cynaliadwy
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Sustainable.development@wales.gsi.gov.uk

Ffôn: 02920 826769/821550

Dolenni

Cynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru – Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned
http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/?lang=en

Gŵyl y Gelli
www.hayfestival.com

Cynnal Cymru (ar y wefan mae'n bosibl chwilio'r cyfeirlyfr am brosiectau arfer da yng Nghymru)
www.sustainwales.com

Y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy – syniadau da ar gyfer hybu datblygu cynaliadwy yn yr 21ain Ganrif ar wahanol lefelau
http://www.sd-commission.org.uk/publications.php?id=972

Y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy – astudiaethau achos yn dangos arfer da ledled y DU
http://www.sd-commission.org.uk/communitiessummit/case_studies.php

Cymru Gynhaliol – Syniadau ar gyfer Byw'n Gynaliadwy
http://www.sustainablewales.org/blog/

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Y Fframwaith Datblygu Cynaliadwy
http://www.wlga.gov.uk/english/sustainable-development-framework/